

Cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol: Aseiad cyflym o'r dystiolaeth

Adroddiad cryno

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Mawrth 2018

Ymwadiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Dîm Ymchwil yr IICSA ar gais Cadeirydd a Phanel yr Ymchwiliad. Mae'n adroddiad ymchwil yn hytrach nag adroddiad ffurfiol gan yr Ymchwiliad a gynhyrchir yn unol ag adran 24 (1) Deddf Ymchwiliadau 2005. Y barnau a fynegir yw rhai'r awduron yn unig.

© Hawlfraint y goron 2017. Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/.opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.iicsa.org.uk. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ar contact@iicsa.org.uk.

Cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol: Aseiad cyflym o'r dystiolaeth

Adroddiad cryno

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i ysgrifennu gan Ellie Mendez Sayer, Holly Rodger,
Claire Soares, Rachel Hurcombe
Tîm Ymchwil yr IICSA**

Cyflwyniad

Mae cam-drin plant yn rhywiol (CSA) yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc dan 18 oed i gyfranogi mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n cynnwys cam-drin trwy gyswllt a cham-drin di-gyswllt, camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) a pharatoi plentyn at gamdriniaeth.

Fel rhan o'i waith, mae'r Ymchwiliad yn ymchwilio i raddau unrhyw fethiannau gan sefydliadau i ddiogelu plant rhag camdriniaeth a chamfanteisio rhywiol tra'u bod mewn sefydliadau carcharol. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried natur a graddfa cam-drin plant yn rhywiol o fewn yr ystad ddiogeledd yn ogystal ag ymatebion sefydliadau i gam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol. Cynhaliwyd yr asesiad cyflym o'r dystiolaeth (REA) i lywio'r ymchwiliad trwy adolygu'r sylfaen dystiolaeth ymchwil bresennol. Mae'r REA yn archwilio'r dilynol:

- Tystiolaeth yn ymwneud â mynychder cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol;
- Nodweddion demograffig-gymdeithasol dioddefwyr a chyflawnwyr fel ei gilydd;
- Y ffactorau sy'n gysylltiedig â methu â diogelu neu weithredu i ddiogelu plant sydd yng ngofal sefydliadau carcharol;
- Natur y systemau diogelu sydd ar waith a sut maent wedi newid dros y blynyddoedd;
- Argymhellion yn y llenyddiaeth ynghylch sut y gellir gwella'r systemau hynny i ddiogelu plant yn y ddalfa yn well rhag camdriniaeth rywiol.

Dull

Defnyddiwyd dull asesiad cyflym o'r dystiolaeth i nodi a chyfuno tystiolaeth bresennol yn ymwneud â'r meysydd diddordeb a nodir uchod. Yn dilyn cyfnod o arbrofi, gwnaed chwiliadau mewn cronfeydd data academiaidd¹ yn ogystal â chronfeydd data anacademaidd perthnasol² a chwiliadau cyffredinol ar y rhyngwrdd, gan ddefnyddio set gytunedig o dermau chwilio a meini prawf cynnwys. Gwnaed y chwiliad llenyddiaeth cychwynnol rhwng Hydref 2016 a Mawrth 2017. Nodwyd llenyddiaeth ychwanegol (er enghraifft trwy gyfeiriadau llyfryddiaethol mewn llenyddiaeth a gynhwyswyd a gan adolygwyr) hyd at fis Hydref 2017. Blaenoriaethwyd y llenyddiaeth oedd yn deillio o hynny, a chafodd dros 230 o'r astudiaethau mwyaf perthnasol a chadarn eu codio, eu dadansoddi a'u cyfuno ar gyfer yr adroddiad hwn. Mesurwyd eu manylrwydd methodolegol trwy ddefnyddio adnodd asesu ansawdd (QA). Mabwysiadwyd dull 'pwysau tystiolaeth ymchwil', ag ansawdd y llenyddiaeth a'i pherthnasedd i nodau'r REA³ yn pennu'r pwysau a roddwyd i'w ganfyddiadau o fewn y gwaith dadansoddi ac adrodd. Cyfeirir at astudiaethau ychwanegol a darnau eraill o lenyddiaeth mewn sawl man er mwyn darparu rhagor o gyd-destun. Nid yw'r adroddiad yn ceisio darparu trosolwg cwbl gynhwysfawr ar yr holl lenyddiaeth sydd ar gael, ac nid yw'n ceisio disgrifio neu dynnu casgliadau ynglŷn ag arfer cyfredol yn yr ystad ddiogeledd.

- 1 Web of Science, Access to Research, llyfrgell yr NSPCC, llyfrgell Prydain, COPAC, Cyfeiriadur Erthyglau Mynediad Agored.
- 2 Social Care Online (SCIE), Open Grey.
- 3 Gan gynnwys ei awdurdodaeth a dyddiad cyhoeddi; blaenoriaethwyd llenyddiaeth fwy diweddar a llenyddiaeth o Gymru a Lloegr.

Canfyddiadau allweddol

Cyd-destun

Yr ystad ddiogeled

Ar hyn o bryd, mae'r ystad ddiogeled ieuentid yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys tri math gwahanol o sefydliad: Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI), Canolfannau Hyfforddi Diogel (STC) a Chartrefi Diogel i Blant. Fel rheol, mae YOIs yn cartrefu plant yr ystyrir eu bod yn fwy caled ac/neu'n hŷn. Fel rheol, mae STCs yn cartrefu plant sydd yn fwy annibynnol, wedi'u hysgogi i fynychu'r ysgol neu sydd â ffactorau risg sy'n ei wneud yn amhriodol iddynt gael eu lleoli mewn YOI. Fel rheol, mae SCHs yn cartrefu'r rhai hynny y teimlant eu bod fwyaf agored i niwed neu sydd ag anghenion mwy cymhleth ac sy'n iau. Mae YOIs yn darparu ar gyfer bechgyn yn unig, tra bod STCs a SCHs yn darparu ar gyfer bechgyn a merched. Roedd cyfanswm o 16 o sefydliadau yn 2017: pum YOI, tair STC ac wyth SCH.

Yn dilyn patrwm o duedd gyffredinol, mae nifer y plant yn y ddalfa wedi gostwng yn sylweddol ers canol 2008. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n aros yn yr ystad ddiogeled yn fwy agored i niwed a difreintiedig fel rheol, a gallant beri ffactorau risg sylweddol iddynt hwy eu hunain ac i bobl eraill (Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru a Lloegr, 2017; Bateman, 2016; Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru a Lloegr, 2015b; Jacobson ac eraill, 2010).

Cefndiroedd plant yn y ddalfa

Mae profiad blaenorol o gamdriniaeth, gan gynnwys camdriniaeth rywiol ac esgeulustod, yn gyffredin ymhlith plant yn y ddalfa. Mae oddeutu pedwar o bob deg o blant yn yr ystad ddiogeled ieuentid wedi derbyn gofal awdurdod lleol o'r blaen ac mae llawer yn dod o gefndiroedd o anfantais gymdeithasol neu economaidd gyffredinol (Simmonds, 2016; Gyateng ac eraill, 2013; Jacobson ac eraill, 2010; Glover a Hibbert).

Mae triniaeth a lles plant sydd â phrofiad blaenorol o gamdriniaeth rywiol neu gamfanteisio rhywiol yn rhan o ymateb sefydliadau i gam-drin plant yn rhywiol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw astudiaethau diweddar ynghylch cyfraddau'r nifer o achosion o gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc cyn iddynt fynd i'r ddalfa yng Nghymru a Lloegr. Canfu astudiaeth hŷn a wnaed gyda phlant a phobl ifanc rhwng 16 a 20 oed ym 1997 fod mwy nag un o bob pedwar benyw yn y ddalfa wedi dweud ei bod wedi profi cam-drin rhywiol, o'i gymharu ag ychydig o dan un o bob 20 o wrywod (Lader, Singleton a Meltzer, 2000)

Canfuwyd bod anghenion iechyd merched yn yr ystad ddiogeled ieuentid yn fwy cymhleth nag anghenion bechgyn, a bod gan ferched lefelau uwch o gydafiachedd a hunan-niweidio a chyfraddau uwch o ymgais i gyflawni hunanladdiad (Mooney, Statham a Storey, 2007; Lader, Singleton a Meltzer, 2000).

Mae cyfran y plant a gedwir yn y ddalfa ar sail troseddau rhywiol yn bwysig i'w hystyried oherwydd gallai'r grŵp hwn fod mewn perygl arbennig o gyflawni cam-drin rhywiol ac o'i ddiodef.

Amcangyfrifwyd bod y gyfran o blant yn y ddalfa oherwydd euogfarn ynghylch trosedd rywiol gyfredol yn bump y cant fwy neu lai yng Nghymru a Lloegr yn 2014 (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid (YJB), a nodwyd yn Howard League for Penal Reform, 2015). Mae plant (bechgyn yn bennaf) a gafodd eu heuogfarnu am drosedd rhywiol yn rhannu llawer o'r un gwendidau ag eraill a gartrefir yn yr ystad ddiogeled, gan gynnwys dod o gefndiroedd teuluol difreintiedig yn aml ac wedi profi neu gael eu diagnosio ag amrediad eang o gyflyrau iechyd meddwl (Howard League for Penal Reform, 2015; Underwood ac eraill, 2008; Delisi ac eraill, 2008; Lambie a Seymour, 2006; Van Wijk ac eraill., 2007; Masson a Hackett, 2004; Hamilton,

Falshaw a Browne, 2002; Grimshaw, 2008; Caint, 2004; Falshaw a Browne, 1997).

Erledigaeth

Erledigaeth gyffredinol yn yr ystad ddiogeled

Er bod yr adolygiad hwn yn nodi llawer iawn o lenyddiaeth ynghylch erledigaeth o fewn yr ystad ddiogeled, ac mewn sefydliadau carcharol y tu allan i Gymru a Lloegr, roedd y llenyddiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar drais a bwlio rhwng cymheiriaid ac nid oedd yn canolbwyntio ar gam-drin plant yn rhywiol. Nododd y llenyddiaeth gyfraddau uchel o drais ac erledigaeth rhwng cymheiriaid mewn sefydliadau carcharol (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, 2017b; Simmonds, 2016; Liefwaard, Reef a Hazelzet, 2014; Cesaroni a Peterson-Badali, 2005).

O'r hyn sy'n hysbys yng Nghymru a Lloegr, ymddengys fod yr ystad ddiogeled ieuctid yn peri mwy o risg o erledigaeth na charchardai oedolion. Mae ffigurau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o 2014 yn dangos, er gwaethaf y ffaith eu bod yn cyfrif am un y cant yn unig o boblogaeth carchardai, mae un ar ddeg y cant o ddiodefwyr ymosodiadau yn y carchar yn blant (Willow, 2015 yn dyfynnu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014). Yn 2016, adroddodd Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) fod 1,294 o ymosodiadau wedi digwydd⁴ yn yr ystad ddiogeled. Er bod cyfanswm y ffigwr wedi gostwng bob blwyddyn ers 2011 - pan oedd 2,925 o ymosodiadau - oherwydd bod y boblogaeth yn disgyn yn yr ystad ddiogeled, mae wedi codi'n sylweddol fel cyfran o'r rhai hynny sydd yn y ddalfa; o 9.7 ymosodiad fesul 100 o blant yn y ddalfa yn 2011 i 18.9 ym 2016 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, 2017b).

Cam-drin plant yn rhywiol yn yr ystad ddiogeled

Mae heriau sylweddol o ran casglu data cywir ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa ac mae data cyfyngedig yn unig ar gael, yn arbennig o Gymru a Lloegr. Y ffynhonnell orau sydd ar gael ynghylch cyfraddau mynychder yng Nghymru a Lloegr yw arolwg blynyddol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr (HMIP) (Tabl 1). Mae'r arolwg hwn wedi nodi lefelau cymharol isel o gam-drin plant yn rhywiol yn YOIs ac STCs yn gyson; roedd y ffigurau o arolwg 2015/16 ynghylch cam-drin rhywiol gan staff yn un y cant mewn YOIs a dau y cant mewn STCs ac yn achos cam-drin rhywiol gan gymheiriaid, un y cant mewn YOIs a thri y cant mewn STCs. Fodd bynnag, gall y ffordd a wneir yr arolwg a'r heriau o gasglu gwybodaeth am gamdriniaeth rywiol plant effeithio ar ba mor gywir mae'n cynrychioli gwir raddfa camdriniaeth plant yn y ddalfa.

Tabl 1: Ymatebion arolwg HMIP mewn cysylltiad â cham-drin rhywiol 2014-16.

		Plant eraill		Staff	
		2014/15	2015/16	2014/15	2015/16
YOIs		1 y cant	1 y cant	1 y cant	1 y cant
STCs	Merched	0 y cant	8 y cant	0 y cant	8 y cant
	Bechgyn	3 y cant	2 y cant	3 y cant	2 y cant
	Cyffredinol	2 y cant	3 y cant	2 y cant	2 y cant

4 Mae diffiniad yr YJB o ymosodiad fel sy'n dilyn: 'Diffinnir ymosodiadau fel 'y defnydd bwriadol o rym diangen sy'n arwain at gysylltiad corfforol â'r diodefwyr'. Gall cysylltiad corfforol olygu unrhyw ran o gorff yr ymosodwr neu hylif corfforol neu ddefnyddio neu arddangos unrhyw arf neu deflyn. Nid oes angen i'r diodefwyr ddiodef anaf o unrhyw fath. Mae ymosodiadau o natur rywiol wedi'u cynnwys yn y diffiniad (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, 2015b, tud. 20).

Amgylchiadau'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa

Mae diffyg gwybodaeth ar gael ynglŷn ag amgylchiadau'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa a nodweddion tramgwyddwyr - yn arbennig yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Unol Daleithiau, canfu un astudiaeth fod y mwyafrif o dramgwyddwyr y rhoddwyd gwybod amdanynt oherwydd camymddygiad rhywiol gan staff yn erbyn plant a phobl ifanc yn fenywod a bod y mwyafrif o dramgwyddwyr y rhoddwyd gwybod amdanynt oherwydd cam-drin plant yn rhywiol rhwng cymheiriaid yn ddyinion (Beck ac eraill, 2012). Fodd bynnag, ni ellir cyffredinol'i'r canfyddiadau hyn y tu hwnt i'r Unol Daleithiau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud casgliadau ynghylch gam-drin plant yn rhywiol yn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru a Lloegr.

Gwendidau penodol a grwpiau mewn perygl gwaeth o ddioddef cam-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa

Mae gwybodaeth gyfyngedig yn unig ar gael ynghylch cysylltiadau rhwng nodweddion penodol plant a'r tebygolrwydd o brofi erledigaeth rywiol. Fodd bynnag, daeth nifer o ffactorau i'r amlwg o'r llenyddiaeth fel rhai sy'n gysylltiedig â pherygl gwaeth o ddioddef cam-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa. Mae'r rhain yn cynnwys rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hanes o brofi ymosodiad rhywiol cyn mynd i'r ddalfa neu fod wedi cael eu heuogfarnu o drosedd rhywiol cyn mynd i'r ddalfa (gweler, er enghraifft, Beck ac eraill, 2012; Heaton ac eraill, 2012; Kennedy, 1995; Epps, 1994; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Klatt ac eraill, 2016).

Diwylliant ac amgylchedd

Diwylliant o fewn yr ystad ddiogeledd

Mae'r diwylliant amlycaf o fewn sefydliad carcharol wedi'i nodi fel ffactor pwysig o ran cadw plant yn ddiogel (Erooga, 2009; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Panel Adolygu ar Drais mewn Carchardai, Yr Adran Gyfiawnder, 2010) a chyfrannu at galluogi neu helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol (Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, 2013). Mae mathau penodol o ddiwylliant wedi'u nodi fel rhai sy'n arbennig o gysylltiedig ag achosion o gam-drin. Er enghraifft, 'diwylliannau cosbi yn hytrach na diwylliannau adsefydlu', diwylliannau 'caeedig' a hierarchaidd a diwylliannau 'macho' (Klatt ac eraill., 2016; Beck ac eraill, 2012; Heaton ac eraill, 2012; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Kennedy, 1995; Epps, 1994).

Mae llawer o'r llenyddiaeth yn dadlau bod angen ymagwedd adsefydlu yn achos plant yn y ddalfa, ond nid dyma'r ymagwedd a gymerid o fewn pob sefydliad neu gan yr holl staff (Almond, 2012c; Ymddiriedolaeth ac Ymchwiliad Diwygio Carchardai, 2012; O'Neill, 2001; Khan, 2010; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Hackett, Masson a Phillips, 2005). Yn benodol, mae YOIs wedi eu nodwedu fel sefydliadau lle mae'r diwylliant yn canolbwyntio ar gosbi a rheoli (Almond, 2012c; Ymddiriedolaeth ac Ymchwiliad Diwygio Carchardai, 2012). Mae consensws yn y llenyddiaeth mai SCHs yw'r math o sefydliad diogel sy'n canolbwyntio'n fwy ar y plentyn, ac mae'r gofal a ddarperir yn fwy unigol a phersonol a chaif cartrefi'n eu disgrifio fel rhai ag awyrgylch mwy anffurfiol, teuluol (Bateman, 2016; Ellis, 2016; Rose, 2014; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Khan, 2010).

Gall sefydliadau caeedig sy'n cael eu trefnu mewn modd hierarchaidd anhyblyg ac wedi'u cau i graffu allanol fod yn llai agored i heriau allanol neu fewnol ac maent wedi eu nodi fel rhai sy'n gysylltiedig ag achosion o gamddefnyddio pŵer o fewn sefydliadau i blant (Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, 2013; Erooga, 2009; O'Neill, 2001). Mewn amgylchedd o'r fath gall staff deimlo nad oes ganddynt bŵer i godi pryderon ac efallai y bydd arferion gwael yn parhau heb eu herio (Erooga, 2009). Hefyd nodwyd diwylliant dan ddylanwad dynion neu 'macho' fel ffactor mewn nifer o ymchwiliadau i gam-drin plant mewn sefyllfaoedd preswyl (Erooga, 2009). Gallai'r math hwn o ddiwylliant 'macho' fod yn amlwg, naill ai mewn plant neu staff, trwy

anallu i fynegi teimladau neu wendidau emosiynol, gwadu teimladau neu anallu i'w nodi mewn pobl eraill (Willow, 2015; Coles, 2015; Rose, 2014).

Gallai ffactorau o'r fath arwain at oblygiadau ar gyfer nodi ac adrodd am gam-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa.

Perthnasoedd rhwng staff a phlant

Mae'r llenyddiaeth yn pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd ymddiriedus rhwng plant a staff yn y ddalfa er lles plant a phobl ifanc (User Voice, 2012; Douglas and Plugge, 2008). Dywedir bod perthnasoedd o'r fath yn bwysig am nifer o resymau, gan gynnwys lles plant, rheoli ymddygiad a chynnal trefn (Douglas and Plugge, 2008; Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr, 2006b). Mae pwysigrwydd y perthnasoedd ymddiriedus hyn hefyd yn arbennig o berthnasol o ran galluogi plant i godi pryderon neu broblemau (User Voice, 2012) a chynorthwyo staff i allu nodi erledigaeth (Children's Rights Alliance for England a Hodgkin, 2002). Mae arolwg HMIP 2015/16 yn dangos y byddai cyfran fach o blant mewn YOIs yn datgelu camdriniaeth i aelodau staff, a byddai di ond 28 y cant o fechgyn yn dweud y byddent yn rhoi gwybod am erledigaeth i aelodau staff (Simmonds, 2016). Pwysleisiodd rhywfaint o'r llenyddiaeth hefyd y gallai plant sydd wedi profi trawma ac sydd yn y ddalfa gael trafferth ymddiried mewn oedolion neu drafod profiadau a digwyddiadau poenus (Beyond Youth Custody, 2016; Gray, 2015; O'Neill, 2001).

Heriau strwythurol

Mae'r llenyddiaeth yn dangos y gall strwythur sefydliadau'r ystad ddiogeledd beryglu diogelu plant yn effeithiol yn y ddalfa. Er enghraifft, mae'r ffaith fod sefydliadau'n gymharol fawr o ran eu maint a bod plant yn cael eu lleoli mewn sefydliadau sy'n gymharol bell o'u cartref yn ffactorau a allai arwain at oblygiadau negyddol i allu sefydliad i gadw plant yn ddiogel, pa mor ddiogel mae plant yn teimlo yn y ddalfa, a'r risg o erledigaeth rywiol yn y ddalfa (HM Chief Inspector of Prisons, 2015a, 2009; Youth Justice Board and National Children's Bureau, 2008; United States Review Panel on Prison Rape, Department of Justice, 2010). Mae ffactorau allweddol eraill yn ymwneud â'r amgylchedd ffisegol, y boblogaeth gymysg o blant a leolir ar sail lles neu gyfiawnder ieuencid mewn SCHs, a'r gymhareb o staff i blant (Prison Reform Trust and Inquest, 2012; Rose, 2014; Youth Justice Board and National Children's Bureau, 2008).

Y defnydd o atal, noeth chwiliadau a CCTV

Yn achos plant sydd wedi dioddef camdriniaeth yn y gorffennol, gall ataliaeth fod yn brofiad trawmatig iawn (Arolygiaeth Carchardai EM, 2015a; Smallridge ac Williamson, 2008; Carlile, 2006). Mae angen rhagor o ymchwil er mwyn deall yn well beth yw effaith atal i ddioddefwyr cam-drin rhywiol (Carlile, 2006).

Dros y ddegawd diwethaf mae nifer o adolygiadau ac ymchwiliadau i wahanol feysydd yr ystad ddiogeledd wedi nodi, i raddau amrywiol, yr effaith arbennig o drawmatig y gall noeth-chwiliadau eu cael ar blant sy'n mynd i'r ddalfa ac sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol o'r blaen (Berelowitz a Hibbert, 2011; Khan, 2010; Lambert, 2005).

Gall CCTV ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad troseddwr a staff, teimladau o ddiogelwch ac arferion diogelu. Fodd bynnag, bu beirniadaeth hefyd ynghylch bylchau mewn recordiadau CCTV a gor-ddibynnu ar dystiolaeth CCTV wrth ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth (Holden et al., 2016).

Asesu ac ymateb i anghenion ac ymddygiadau

Asesu risg

Mae asesiadau'n un o'r dulliau yn gall sefydliadau yn yr ystad ddiogeledd eu defnyddio i nodi ac adolygu pa mor agored i niwed mae plentyn, ac o ganlyniad i hynny, datblygu cynlluniau gofal priodol sy'n helpu i'w cadw'n ddiogel. ASSET⁵ oedd yr adnodd asesu risgiau strwythuredig cyntaf i'w ddefnyddio gyda'r holl blant o fewn y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr, ac fe'i gyflwynwyd gan yr YJB yn 2000 (Raymond, 2004; Baker ac eraill, 2004; Griffin a Beech, 2004). Mae astudiaethau wedi canfod y gallai ASSET fethu â nodi sefyllfaoedd lle bydd troseddwr ifanc yn agored i gael ei niweidio pan nad fydd yn ymwneud â'i ymddygiad troseddol (Jacobson ac eraill, 2010; Almond, 2012a; Almond, 2012b) ac wedi canolbwyntio'n bennaf ar reoli ymddygiad a risg plant, nid eu hanghenion diogelwch neu les (Almond, 2012a; Almond, 2012b; Kemshall, 2007; Goldson, 2003).

Ymateb sefydliadau i gam-drin plant cyn iddynt fynd i'r ddalfa

Mae hanes blaenorol o gam-drin plant yn gyffredin ymhlith plant sy'n mynd i'r ddalfa yng Nghymru a Lloegr. O ganlyniad, mae'n bwysig bod sefydliadau carcharol yn mynd i'r afael â'r profiadau blaenorol hyn o gam-drin rhywiol ac yn ymateb iddynt, trwy sgrinio ac asesu priodol yn ogystal ag ymyriadau triniaeth effeithiol.

Nid oedd unrhyw ran o'r llenyddiaeth a adolygwyd yn yr REA hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ymatebion sefydliadau i blant a ddaeth i'r ddalfa ar ôl profi cam-drin rhywiol. Gwnaeth ychydig o astudiaethau yng Nghymru a Lloegr, a oedd yn canolbwyntio ar ymyriadau iechyd meddwl cyffredinol yn y ddalfa, gyfeiriadau cyfyngedig at yr heriau y bu sefydliadau carcharol yn eu hwynebu wrth ddarparu cymorth i blant a oedd wedi dioddef cam-drin, gan gynnwys cam-drin rhywiol, megis staff sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r wybodaeth sydd eu hangen a'r amser cyfyngedig sydd ar gael i weithio gyda phlant yn y ddalfa (Berelowitz and Hibbert, 2011; Tunnard, Ryan and Kurtz, 2005; Children's Rights Alliance for England a Hodgkin, 2002; O'Neill, 2001).

Bu anghysondebau ac amrywiaeth eang yn y ddealltwriaeth roedd gan staff perthnasol o effaith profiadau blaenorol, gan gynnwys cam-drin rhywiol, ar les emosiynol ac iechyd meddwl y plentyn (Berelowitz a Hibbert, 2011). Mae llenyddiaeth hefyd wedi bwrw amheuaeth ar addasrwydd lleoliadau diogel ar gyfer plant sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol, a gallu'r amgylcheddau hyn i ddiwallu eu hanghenion (Scott, 2016; Creegan, Scott a Smith 2005).

Asesu a thrin troseddwr rhyw ifanc

Mae asesu troseddwr rhyw ifanc yn y ddalfa a modelau triniaeth ar eu cyfer yn bethau defnyddiol i'w hystyried, oherwydd gall y grŵp hwn o unigolion fod mewn perygl o erlid pobl eraill yn rhywiol neu gael eu herlid eu hunain tra'u bod yn y ddalfa. Bu datblygiadau er mwyn reoli a thrin troseddwr rhyw ifanc yn well. Er enghraifft, erbyn hyn, cydnabyddir nad yw modelau triniaeth a gynlluniwyd ar gyfer troseddwr rhyw sy'n oedolion yn addas ar gyfer plant a phobl ifanc (Grimshaw, 2008; Griffin a Beech, 2004; Masson a Hackett, 2004). Yn ddiweddar, mae GIG Lloegr hefyd wedi comisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a gafodd eu heuogfarnu am droseddau rhywiol (Howard League for Penal Reform, 2015). Fodd bynnag, bu nifer o bryderon ynghylch darparu gwasanaethau ar gyfer plant sydd mewn perygl o ddioddef ymddygiad rhywiol niweidiol yn yr ystad ddiogeledd. Roedd y pryderon yn cynnwys: diffyg arweiniad clir ar gyfer llywio a chydlynu gweithgarwch amlddisgyblaethol; tystiolaeth wael o effeithiolrwydd y rhaglen; addasu modelau asesu i'w defnyddio mewn sefydliadau diogel yn wael; a diffyg cymorth (wedi'i deilwra) ynghylch gweithio

5 Mae fframwaith asesu newydd o'r enw Asset Plus wedi cael ei gyflwyno'n raddol ar draws yr ystad ddiogeledd ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd ag adnodd asesu iechyd cynhwysfawr (CHAT) (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr, 2015a; Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr, 2015b; Porteous, Adler a Davidson, 2015).

gyda'r grŵp hwn yn fwy cyffredinol (Khan, 2010).

Datblygu cymdeithasol, rhywiol a pherthnasoedd yn y ddalffa

Efallai bydd gan blant yn y ddalffa anghenion penodol ynghylch datblygu cymdeithasol a rhywiol, er enghraifft, oherwydd eu bod yn debygol o fod â hanes o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac oherwydd eu hoedran (Beyond Youth Custody, 2016; Howard League for Penal Reform, 2015; Lambie a Randell, 2013; Ford ac eraill, 2012; Ikomi ac eraill, 2009; Douglas a Plugge, 2008; Stuart a Baines, 2004a; Epps, 1994). Mae'r amgylchedd carcharol yn achosi heriau penodol o ran annog datblygiad cymdeithasol a rhywiol priodol ymhlith plant. Mae'r llenyddiaeth yn nodi cyfyngiadau ar y gallu i ffurfio a chynnal perthnasoedd yn rhwydd â ffrindiau a theulu (Howard League for Penal Reform, 2015; Lambie a Randell, 2013; Epps, 1994) a hefyd, yn arbennig, ar y gallu i gymdeithasu â phlant a pobl ifanc o'r rhyw arall (Howard League for Penal Reform, 2015).

Polisiau a gweithdrefnau diogelu

Casglodd adroddiad blynyddol HMIP 2016-17, fel Chwefror 2017, nad oedd un YOI neu STC a oedd yn ddiogel i gartrefu plant. Mae'n datgan nad oedd unrhyw un wedi cyflawni'r safon 'dda' neu 'gweddol dda' ym maes diogelwch (Prif Arolygydd Carchardai EM, 2017a). Roedd adroddiad gan y Bwrdd Gwella Dalffeydd leuenctid yn 2017 hefyd yn honni bod diogelwch yn parhau i fod yn risg allweddol mewn YOI a STC (Wood et al., 2017). Nodwyd chwe pholisi a gweithdrefn ffurfiol allweddol o fewn yr ystad ddiogeled yn yr REA hwn fel rhai sydd wedi cael cysylltiad uniongyrchol â diogelu, neu effaith arno. Mae crynodeb o'r rhain isod.

Arolygiadau

Mae arolygiadau'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddeall mynychder cam-drin plant yn rhywiol yn y ddalffa, yn ogystal â nodi hynny. Rhwng mis Gorffennaf 2009 a mis Mawrth 2014, fe wnaeth arolygwyr roi gwybod am 130 o honiadau ynghylch diogelu plant yn dilyn arolygiadau rheolaidd o YOIs ac STCs (Willow, 2015). O'r honiadau hyn, roedd 15 yn ymwneud â cham-drin rhywiol gan staff y carchar ac 11 yn ymwneud â cham-drin rhywiol gan blant eraill (Willow, 2015). Hefyd mae arolygiadau'n darparu set ddata bwysig trwy arolygon yr arolygiaeth (HMIP) mewn YOIs ac STCs, sy'n gofyn yn uniongyrchol i blant a ydynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn y ddalffa.

Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth yn cyfeirio at ddigonolrwydd arolygiadau mewn YOIs, STCs a SCHs, neu'r heriau sy'n eu hwynebu, ar raddfa gyfyng yn unig. Mae rhywfaint o lenyddiaeth yn awgrymu bod ymagwedd ddi-drefn gan y gwahanol gyrff monitro yn amhriodol a'i bod yn cynyddu'r risg o broblemau anhysbys ynghylch diogelu (Holden ac eraill, 2016; Taylor, 2016; Y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008).

Hyfforddi a goruchwyllo staff

Gwnaed yr argymhelliad y dylai'r holl staff sy'n gweithio mewn lleoliadau carcharol dderbyn hyfforddiant arbenigol ynghylch gweithio gyda phlant yn aml yn y llenyddiaeth (Wood et al., 2017; grŵp llywio See it, Say it, Change it a Stephens, 2016; Cynulliad Cenedlaethol, 2010; Khan, 2010; Howard League for Penal Reform, 2010; Y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a'r Biwro Cenedlaethol Plant, 2008; Carlile, 2006; Douglas a Plugge, 2006; Lyon, Dennison, ac Wilson, 2000). Er gwaethaf hyn, awgrymwyd nad oes gan staff sy'n gweithio mewn YOIs ac STCs y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i reoli'r plant mwyaf agored i niwed yn y ddalffa, ac nad ydynt yn cael digon o hyfforddiant. Codwyd materion penodol ynghylch diffyg hyfforddiant wrth ddelio â phlant ag ymddygiad rhywiol niweidiol (Hackett, Masson a Phillips, 2005) a phlant sydd wedi dioddef cam-drin (Howard League for Penal Reform, 2015; Berelowitz a Hibbert, 2011; Khan, 2010; Children's Rights Alliance for England a Hodgkin, 2002).

12 Cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol: Asesiad cyflym o'r dystiolaeth

Prosesau atgyfeirio

Roedd y llenyddiaeth yn amlygu bod cynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau bod staff mewn sefydliadau'n deall y prosesau i'w dilyn os bydd problem ynghylch diogelu plant yn digwydd, ond roedd problemau sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth briodol o beth yn union yw problem ynghylch diogelu plant yn parhau (Association of Independent LSCB Chairs, 2014; Berelowitz a Hibbert, 2011; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008).

Prosesau cwynion

Canfu ymchwil a wnaed gyda phlant yn y ddalfa fod plant yn arddangos gwybodaeth dda am sut i wneud cwyn, ond ni fyddant yn gwneud nac yn dymuno gwneud hynny'n aml (Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth Cymru a Lloegr, 2015; User Voice, 2012; User Voice, 2011; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008). Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys: anfodlonrwydd a diffyg hyder yn y system gwynion; ofni cosbau; a natur gymhleth, biwrocraidd ac amheronol y system gwynion.

Ystyrir bod gan STCs ac SCHs weithdrefnau cwynion mwy effeithiol ar waith sy'n canolbwyntio'n fwy ar blant na'r rhai sydd gan YOIs (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr, 2011c; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008).

Gweithio rhyngasiantaethol

Canfyddiad allweddol yn y llenyddiaeth oedd yr angen i awdurdodau lleol gyfrannu rhagor at ddiogelu plant yn y ddalfa (Willow, 2015; Association of Independent LSCB Chairs, 2014; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Bottoms a Kemp, 2007; Stuart a Baines, 2004a; Children's Rights Alliance for England a Hodgkin, 2002). Fe wnaeth sawl adolygiad nodi bod diffyg cyfraniad amlasiantaethol ynghylch arferion diogelu (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Berelowitz a Hibbert, 2011). Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd bod cyfraniad ystyrion awdurdod lleol yn arbennig o brin yn achos YOIs (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008; Stuart a Baines, 2004a).

Mae llenyddiaeth yn dangos ymateb gymysg gan awdurdodau lleol i bryderon ynghylch diogelu sy'n cael eu cyfeirio atynt gan sefydliadau carcharol, a cheir craffu cyfyngedig yn unig ar ganlyniadau honiadau ac adborth gwael i sefydliadau mewn cysylltiad ag atgyfeiriadau (Association of Independent LSCB Chairs, 2014; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Biwro Cenedlaethol y Plant, 2008).

Prosesau derbyn

Bydd plant sydd ar fin mynd i'r ddalfa'n fwy agored i niwed, oherwydd yr anawsterau cynhenid sy'n gysylltiedig ag wynebu amgylchedd anghyfarwydd yn ogystal â, mae wedi'i awgrymu, risg uwch o erledigaeth gan blant eraill (Connell, Farrington ac Ireland, 2016; Coles, 2015; Children's Rights Alliance for England and Hodgkin, 2002; Dimond, Misch a Goldberg, 2001).

Casgliadau

Mae'r asesiad cyflym hwn o dystiolaeth wedi crynhoi gwybodaeth gyd-destunol berthnasol, gan gynnwys nodweddion demograffig-gymdeithasol dioddefwyr a thramgwyddwyr a natur systemau diogelu, ac wedi cyfuno tystiolaeth ymchwil ynghylch cam-drin plant yn rhywiol o fewn sefydliadau carcharol. Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth

wedi amlygu bod diffyg gwybodaeth gadarn sy'n ymwneud yn benodol â cham-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r llenyddiaeth yn amlygu bod plant yn y ddalfa yn boblogaeth sy'n arbennig o agored i niwed, ac mae gan lawer ohonynt gefndir o gam-drin, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, amddifadedd, gofal awdurdod lleol a phroblemau iechyd meddwl. Nodwyd bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at gadw plant yn ddiogel, neu, i'r gwrthwyneb, yn eu rhoi mewn perygl o wynebu llosgau uwch o risg. Mae'r rhain yn cynnwys: y diwylliant o fewn sefydliadau; perthnasoedd â staff; cymarebau staff a maint y sefydliadau; yr amgylchedd ffisegol; a chymysgedd y boblogaeth. Mae hyfforddi staff hefyd yn thema gref ac mae beirniadaeth sylweddol wedi cael ei chysylltu ag amllder, digonolrwydd a chysondeb yr hyfforddiant a'r goruchwyliaeth a ddarperir i staff mewn sefydliadau carcharol yng Nghymru a Lloegr. Mae systemau ynghylch diogelu yn y ddalfa, gan gynnwys systemau arolygu a gweithio amlasiantaethol, hefyd yn ganolbwynt i nifer o astudiaethau a sylwadau. Mae'r llenyddiaeth yn nodi gweithio amlasiantaethol, megis cydweithio ag awdurdodau lleol, fel gwendid posibl yn yr ystad ddiogeledd ieuencid, er nad oes fawr o wybodaeth ymchwil ar gael am effeithiolrwydd y broses arolygu.

Er na nododd yr adolygiad hwn lenyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â thrin digwyddiadau a honiadau o gam-drin plant yn rhywiol, ystyriwyd llenyddiaeth yn ymwneud â'r broses atgyfeirio ar gyfer diogelu plant a'r system gwynion yn y ddalfa yn fwy cyffredinol. Mae nifer o adolygiadau wedi nodi anghysondeb yn y broses o wneud atgyfeiriadau gan sefydliadau carcharol. Er bod plant yn arddangos ymwybyddiaeth dda o'r system gwynion, mae nifer o rwystrau'n bodoli sy'n eu hatal rhag ei defnyddio mewn gwirionedd.

Bylchau yn yr ymchwil

Nid oedd fawr o dystiolaeth ymchwil gadarn o Gymru a Lloegr ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa. Mae hyn yn wahanol i'r Unol Daleithiau, lle cynhelir arolwg blynyddol mawr o erledigaeth rywiol mewn sefydliadau cywirol ar gyfer plant gan ddefnyddio methodoleg fwy dibynadwy. Er bod arolwg blynyddol HMIP yn STC ac YOI yn gofyn i blant am gam-drin rhywiol, gall y ffordd a wneir yr arolwg a'r heriau o gasglu gwybodaeth am gamdriniaeth rywiol plant effeithio ar ba mor gywir mae'n cynrychioli gwir raddfa camdriniaeth plant yn y ddalfa. Yn ogystal, ni ofynnir cwestiynau ychwanegol am unrhyw gam-drin y rhoddir gwybod amdano, megis beth yw amgylchiadau a nodweddion y tramgwyddwr ac nid oes unrhyw ddata tebyg ar gael i SCH.

Mae'r gyfran uchel o blant yn y ddalfa sydd wedi profi cam-drin, gan gynnwys cam-drin rhywiol cyn mynd i'r ddalfa, yn thema yn y llenyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw goblygiadau hyn - a'r hyn mae'n ei olygu i brofiadau plant o'r ddalfa, eu hanghenion, a sut ddylid diwallu'r rhain - wedi cael eu harchwilio'n llawn trwy gyfrwng ymchwil. Yn yr un modd, er iddo gael ei awgrymu y gallai troseddwyr rhyw ifanc fod mewn perygl uwch o fod yn dioddefwyr ac o erlid pobl eraill yn y ddalfa, ni wnaeth unrhyw ran o'r llenyddiaeth a nodwyd yn yr REA hwn ganolbwyntio ar y dull gorau o ddiwallu anghenion y plant hyn a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy tra'u bod yn y ddalfa.

Nid yw'r llenyddiaeth ynghylch cadw plant yn ddiogel yn y ddalfa yn archwilio'n benodol sut i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol. Byddai ymchwil sy'n mynd i'r afael â ffactorau sefydliadau (megis y rhai

hynny sy'n ymwneud â strwythur a diwylliant y sefydliad yn hytrach na rhai sy'n ymwneud â dioddefwyr neu dramgwyddwyr) yn werthfawr, yn enwedig rhai ynghylch cham-drin plant yn rhywiol yn y ddalfa . Gallai'r ffactorau penodol y gellid eu hystyried gynnwys: diwylliant sefydliadau; maint a strwythur sefydliadau; hyfforddiant staff; a gweithio aml-asiantaethol.

Mae'r llenyddiaeth yn aml yn gwahaniaethu'n glir rhwng YOIs, STCs ac SCHs, ac yn aml awgrymir bod SCHs yn canolbwyntio'n fwy ar y plentyn a'u bod yn fwy diogel na mathau eraill o sefydliadau. Gallai ymchwil sy'n trafod a yw hyn yn wir mewn gwirionedd, yn arbennig o ran cam-drin plant yn rhywiol, ac os felly, sy'n archwilio'r rhesymau pam, wneud cyfraniad pwysig i wybodaeth yn y maes hwn.

Cyfeiriadau

- Almond, T. (2012a). 'Asset: an assessment tool that safeguards or stigmatizes young offenders?' *Papur Prawf*, 59(2), 2012, 138-150.
- Almond, T. (2012b). 'Asset: An assessment tool that safeguards or stigmatizes young offenders?' a practitioner response. *Papur Prawf*, 59(3), 269-274.
- Almond, T. (2012b). Darpariaeth gofal a gwasanaethau iechyd meddyliol yn sefydliadau troseddwy'r ifanc. *Practice*, 24(3), 189-200.
- Association of Independent LSCB Chairs. (2014). *People should be helped to feel safe: child protection and safeguarding in young offender institutions, secure training centres and secure children's homes: guidance for chairs and members of Local Safeguarding Children Boards*. . Cymdeithas Cadeiryddion Annibynnol LSCB, y Gymdeithas Genedlaethol dros Atal Creulondeb tuag at Blant. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.lscbchairs.org.uk/Public/Resources/USEFUL_RESOURCES/Public/Policy/USEFUL_RESOURCES/USEFUL_RESOURCES.aspx?hkey=570a173b-21db-447e-9e39-c36a606c5676 [Accessed 12 October 2017].
- Baker, K., Jones, S., Roberts, C. a Merrington, S. (2004). *The evaluation of the validity and reliability of the youth justice board's assessment for young offenders...* Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
- Bateman, T. (2016). *State of youth custody*. Y Gymdeithas Genedlaethol dros Gyfiawnder Ieuencid. [Ar-lein]. Ar gael ar: <http://thenayj.org.uk/campaigns-and-publications-2/> [Accessed 17 October 2017].
- Beck, A.J., Cantor, D., Hartge, J., and Smith, T. (2012). *Sexual victimization in juvenile facilities reported by youth, 2012..* Washington, DC: Ystadegau'r Canolfan Cyfiawnder.
- Berelowitz, S., a Hibbert, P. (2011). *'I think I must have been born bad' Emotional wellbeing and mental health of children and young people in the youth justice system..* Llundain: Swyddfa'r Comisynydd Plant.
- Beyond Youth Custody. (2016). *Trauma and young offenders a review of the research and practice literature: research summary*. Llundain: Beyond Youth Custody.
- Bottoms, A. a Kemp, V. (2007). 'The relationship between youth justice and child welfare in England and Wales', yn M. Hill, A. Lockyer a F. H. Stone, (eds). *Youth Justice and Child Protection*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.
- Carlile, A.C. (2006). *The Carlile Inquiry: an independent inquiry into the use of physical restraint, solitary confinement and forcible strip searching of children in prisons, secure training centres and local authority secure children's homes*. Llundain: Howard League for Penal Reform.
- Cesaroni, C., a Peterson-Badali, M. (2005). 'Young offenders in custody: risk and adjustment.' *Criminal Justice and Behavior*, 32(3), 251-277.
- Children's Rights Alliance for England and Hodgkin, R. (2002). *Rethinking child imprisonment: a report on young offender institutions*. Llundain: Cynghrair Hawliau Plant dros Loegr.
- Coles, D. (2015). *Stolen lives and missed opportunities: the deaths of young adults and children in prison*. Inquest. [Ar-lein]. Ar gael ar: <http://inquest.org.uk/publications/books/stolen-lives-and-missed-opportunities> [Accessed 13 October 2017].
- Connell, A., Farrington, D.P., a Ireland, J.L. (2016). Characteristics of bullies and victims among incarcerated male young offenders. *Journal of Aggression Conflict and Peace Research*, 8(2), 114-123.
- Creegan, C., Scott, S., a Smith, R. (2005). *The use of secure accommodation and alternative provisions for sexually exploited young people in Scotland*. Ilford: Uned Polisi ac Ymchwil Barnardo's.

- Day, C., Hibbert, P. a Cadman, S. (2008). *A literature review into children abused or neglected prior to custody*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
- Delisi, M., Vaughn, M.G., Beaver, K.M., Wright, J.P., Hochstetler, A., Kosloski, A.E., a Drury, A.J. (2008). 'Juvenile sex offenders and institutional misconduct: the role of thought psychopathology.' *Criminal Behaviour and Mental Health*, 18(5), 292-305.
- Dimond, C., Misch, P., a Goldberg, D. (2001). 'On being in a young offender institution: what boys on remand told a child psychiatrist.' *Psychiatric Bulletin*, 25(9), 342-345.
- Douglas, N. a Plugge, E. (2006). *A health needs assessment for young women in young offender institutions*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid dros Loegr a Chymru.
- Douglas, N. a Plugge, E. (2008). 'The health needs of imprisoned female juvenile offenders: the views of the young women prisoners and youth justice professionals.' *International Journal of Prisoner Health*, 4(2), 66-76.
- Ellis, K.H. (2016). 'He's got some nasty impression of me he has': listening to children in the secure estate.' *British Journal of Social Work*, 46 (6), 1553-1567.
- Epps, K.J. (1994). 'Treating adolescent sex offenders in secure conditions: the experience at Glenthorne Centre.' *Journal of Adolescence*, 17(2), 105-122.
- Erooga, M. (2009). *Towards safer organisations - Adults who pose a risk to children in the workplace and implications for recruitment and selection*. Llundain: National Society for the Prevention of Cruelty to Children.
- Falshaw, L. a Browne, K. (1997). 'Adverse childhood experiences and violent acts of young people in secure accommodation.' *Journal of Mental Health*, 6(5), 443-455.
- Ford, J.D., Chapman, J., Connor, D.F., a Cruise, K.R. (2012). 'Complex trauma and aggression in secure juvenile justice settings.' *Criminal Justice and Behavior*, 39(6), 694-724.
- Glover, J. a Hibbert, P. (2009). *Locking up or giving up? Why custody thresholds for teenagers aged 12, 13 and 14 needs to be raised*. Ilford: Uned Polisi ac Ymchwil Barnardo's.
- Goldson, B. (2003). *Vulnerable inside: children in secure and penal settings*. Llundain: The Children's Society.
- Gray, P. (2015). 'I hate talking about it': identifying and supporting traumatised young people in custody.' *The Howard Journal of Criminal Justice*, 54(5), 434-450.
- Griffin, H. a Beech, A. (2004). *Evaluation of the AIM Framework for the assessment of adolescents who display sexually harmful behaviour: a report for the Youth Justice Board*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid dros Loegr a Chymru.
- Evaluation of the AIM Framework for the assessment of adolescents who display sexually harmful behaviour: a report for the Youth Justice Board. *Young people who sexually abuse*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid dros Loegr a Chymru.
- Gyateng, T., Moretti, A., May, T., a Turnbull, P.J. (2013). *Young people and the secure estate: needs and interventions*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid dros Loegr a Chymru.
- Hackett, S., Masson, H. a Phillips, S. (2005). *Services for young people who sexually abuse: a report on mapping and exploring services for young people who have sexually abused others*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid dros Loegr a Chymru.
- Hamilton, C.E., Falshaw, L., a Browne, K.D. (2002). 'The link between recurrent maltreatment and offending behaviour.' *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 46(1), 75-94.
- Heaton, L., Cantor, D., Bruce, C., Ren, W., Hartge, J., a Beck, A.J. (2012). *Facility-level and individual-level correlates of sexual victimization in juvenile facilities*. Washington, DC: Ystadegau'r Canolfan Cyfiawnder.

Her Majesty's Chief Inspector of Prisons for England and Wales. (2017a). *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2016-17*. Llundain: HM Inspectorate of Prisons.

Her Majesty's Inspectorate of Prisons. (2015a). *Behaviour management and restraint of children in custody: a review of the early implementation of MMPR*. Llundain: HM Inspectorate of Prisons.

Holden, G., Allen, B., Gray, S. a Thomas, E. (2016). *Medway Improvement Board: final report of the board's advice to Secretary of State for Justice*. Llundain: Gweinidogaeth Cyfiawnder.

Howard League for Penal Reform. (2010). *Life inside 2010: a unique insight into the day to day experiences of 15 - 17 year old males in prison*. Llundain: Howard League for Penal Reform.

Howard League for Penal Reform, Commission on Sex in Prison. (2015). *Healthy sexual development of children in prison*. Llundain: Howard League for Penal Reform.

Ikomi, P.A., Harris-Wyatt, G., Doucet.,G., a Rodney, H.E. (2009). 'Treatment for juveniles who sexually offend in a Southwestern State.' *Journal of Child Sexual Abuse*, 18(6), 594-610.

Jacobson, J., Bhardwa, B., Gyateng, T., Hunter, G., a Hough, M. (2010). *Punishing disadvantage - a profile of children in custody*. Llundain: Prison Reform Trust.

Kemshall, H. (2007). 'Risk assessment and risk management: the right approach', in M.Blyth, E.Solomon, a K.Baker, (Eds). *Young people and 'risk'*. Bryste: Policy Press, pp.7-23.

Kennedy, H. (1995). *Banged up, beaten up, cutting up: report of the Howard League Commission of Inquiry into violence in penal institutions for teenagers under 18*. Llundain: Howard League for Penal Reform.

Kent, C. (2004). 'Enlightened witnesses: providing trauma-reducing interventions to juvenile sexual offenders within a maximum security prison.' *Sexual Addiction & Compulsivity*, 11(4), 325-342.

Khan, L. (2010). *Reaching out, reaching in: promoting mental health and emotional well-being in secure settings*. Llundain: y Canolfan dros Iechyd Meddyliol

Klatt, T., Hagl, S., Bergmann, M.C., a Baier, D. (2016). 'Violence in youth custody: Risk factors of violent misconduct among inmates of German young offender institutions.' *European Journal of Criminology*, 13(6), 727-743.

Lader, D., Singleton, N. a Meltzer, H. (2000). *Psychiatric morbidity among young offenders in England and Wales: further analysis of data from the ONS survey of psychiatric morbidity among prisoners in England and Wales carried out in 1997 on behalf of the Department of Health*. Llundain: y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Lambert, D. (2005). *Review of the effectiveness of operational procedures for the identification, placement and safeguarding of vulnerable young people in custody*. Norwich: Norfolk ACPC.

Lambie, I. a Seymour, F. (2006). 'One size does not fit all: future directions for the treatment of sexually abusive youth in New Zealand.' *Journal of Sexual Aggression*, 12(2), 175-187.

Lambie, I., a Randell, I. (2013). 'The impact of incarceration on juvenile offenders.' *Clinical Psychology Review*, 33(3), 448-459.

Liefaard, T., Reef, J., a Hazelzet M. (2014). *Report on Violence in Institutions for Juvenile Offenders*. Strasbourg: Cyngor Ewrop.

Lyon, J., Dennison, C., a Wilson, A. (2000). 'Tell Them So They Listen': messages from young people in custody. Llundain: Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygiad ac Ystadegau, y Swyddfa Gartref.

Masson, H. a Hackett, S. (2004). 'The extent and nature of work with adolescents who have sexual behaviour problems: findings from a survey of youth offending teams in England and Wales.' *Cyfiawnder Ieuentid*, 4(3), 160-177.

Gweinidogaeth Cyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid dros Loegr a Chymru. (2017b). *Ystadegau cyfiawnder ieuentid 2015/16*. Llundain: Gweinidogaeth Cyfiawnder.

